

Gwneud yr hyn mae'r Tad yn ei wneud

*“Beth bynnag y mae'r Tad yn ei wneud,
hyn y mae'r Mab yntau yn ei wneud yr un modd.” (adn. 19)*

Beth am ddarlflen Ioan 5:1–23 ac yna myfyrio

Mae bywyd ar y ddaear yma sydd wedi ei effeithio gan bechod yn medru bod yn frwydr. Rwy'n adnabod rhai, er enghraifft, fydd yn siŵr o ddweud: “Dewch, peidiwch â bod yn negyddol! Gall bywyd fod yn anodd ond, ar yr un pryd, gall bywyd fod yn braf iawn hefyd.” Yn ystod sgwrs â gweinidogion yn Borneo ychydig yn ôl, dyfynnais Oswald Chambers pan ddywedodd bod bywyd yn fwy o drasiedi nag o drefn. Wedi ei ddyfynnu, ac wedi gorffen y ddarlith, daeth dyn ataf gan ddweud: “Yn fy marn i, petaem yn edrych ar y byd trwy lygaid mwy positif, fe welwn fod popeth yn brydferth.” “Rwy'n falch dy fod yn meddwl hynny,” atebais, “ond paid â bod yn or-galed arnaf fi os wyf yn cymryd agwedd ychydig yn wahanol.”

Ychydig cyn siarad hefo'r gweinidogion, bŵm yn sgwrsio â gwraig yn ei hugeiniau cynnar oedd yn sôn am yr alwad a deimlai i wasanaethu'r Arglwydd, ac yr oedd ar fin mynd i Goleg Beiblaidd. Ond, yr oedd ei meddyg wedi dweud wrthi ei bod yn dioddef o glefyd anghueol. Gofynnodd i mi weddio ar Dduw i'w iachau a gwnes hynny. Ond ar yr un pryd, yr oeddwn yn ymwybodol fod y driniaeth oedd yn ei haros yn driniaeth beryglus a doedd na ddim gwarant am lwyddiant. Nid oedd gwarant ychwaith y buasai Duw yn ei iachau. Buaswn wrth fy modd o glywed ei bod, bellach, yn iach. Mae Duw yn iachau pobl o glefydau anghueol ond y gwirionedd yw nad yw'n gwneud hyn bob amser. Sut ddylem ni wynebu sefyllfa fel hyn? Dylem ofyn i'n Tad sydd yn y nefoedd beth a ddylem weddio, a sut y dylem weddio. Yn yr adran heddiw, gwelwn Iesu yn iachau un mewn grŵp eang o bobl oedd angen iachâd. Pam dim ond un? Yn ôl ein testun, mae'n edrych yn gyntaf tua'r nefoedd i weld yr hyn oedd ei Dad yn ei wneud ac yna yn gafael yn llaw Duw, fel petai, i weini gyda'r un bwriad.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Salm 40:1–8; 143:10; Iago 4:15

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd dyhead y salmydd?
2. Beth oedd ei gais?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i ddilyn yr egwyddor yma yn fy mywyd gweddi, nid i weddio unrhyw fath o weddi, ond gofyn i ti beth a fyddi di i mi ei wneud. Ac yna yn fy ngweddi, cynorthwya fi i afael yn dy law di i sylweddoli dy fwriadau. Amen.